



Slefred môr ar draeth Y Greigddu 27 Mawrth 2017

Gerallt Pennant

Y cap glas *Rhizostoma octopus* yw slefren Gerallt. Mae Castell Cricieth i'w weld yn y pellter. Ai Greigddu, Morfa Bychan yw'r unig draeth yng Nghymru lle y caniateir ceir arno? Chwilwch am slefr yn yr Oriel i adnabod y slefred ar y dde.



Ewch i dudalen 2 (colofn 1) i weld beth arall sydd wedi cyrraedd ein glannau tua'r un pryd

## Hwyliau mor Malltraeth



Rhai o rhain yn Malltraeth a Berffro dyddia dwythma ma [hyd 24 Mawrth 2017]. Ddim cymaint a dw i'n gofio'r tro o'r blaen.

Wil Williams

Meddai Sion Roberts: Maent wedi tirio yn Dinas Dinlle ac yn Morfa Bychan hefyd. Mae'r creadur yma yn byw ymhell o'r lan, yng nghanol Môr yr Iwerydd. Dim ond pan fydd y gwynt yn chwythu yn gryf, ac yn gyson, y bydd yn cael ei thirio ar ein glannau, ond pan mae hyn yn digwydd maent yn gallu ymddangos yn ei miliynau, fel yn 2004 â 2006. Fel arfer mae'r gwynt yn chwythu'r hwyl fôr i lywio cylch enfawr ar draws Môr yr Iwerydd, heb ddod i gyffwrdd â'r arfordir byth. Ond os yw'r gwynt yn rhy gryf, mae'r 'llog' yn dechrau troi yn eu hunfan ar y wyneb, ac felly yn fwy tebyg o ddilyn y gwynt. Mae'r hwyl yn rhedeg ar ongl draws y 'ford' i ddal y gwynt. Mae rhai, gyda'r hwyl wedi ei droi i'r dde, eraill i'r chwith, felly fe'u didolir gan y gwynt i heidiau sydd o'r un 'set'.

*Chondrophore* yw'r creadur yma:

'The order Chondrophora was created by A.K. Totton in 1954 to accommodate three unusual genera of Hydrozoa'. Hynny yw nid yw gwyddoniaeth yn siwr iawn lle i roi'r anifail yn y sistem tacsonomaidd.

Sion Roberts

Cafodd Wil Jones rai yn Harlech 4 Tach 1996 ac ym Mae Ceredigion ym mis Medi 1935 cofnodwyd:

*E. H. T. Bible has sent in a cutting from the " Shrewsbury Chronicle" of 11th October 1935 reporting thousands of Vellela washed up by persistent south-west wmds in mid September of that year along the coast from Towyn, Merioneth to St. Bride's Bay, Pembrokeshire. (W. M. Condry)*

21 Tach 1954...at Saundersfoot were vast numbers of an allied jellyfish (equipped with a two-inches wide floating bladder) called *Vellela spirans* (By-the-wind Sailor) [*Vellela vellela* yw'r enw cywir meddai Sion Roberts]. This is another rainbow-coloured creature from warmer seas which drifts in large shoals and is occasionally stranded on our south and west coasts.

WM Condry

**Cofiwch Gweithdy WiciNatur 6 Mai,  
Plas Tan y Bwlch  
Gwledd o ddysgu - môr o hwyl!**

## Carn yr ebol afon Llyfni



Llun: Duncan Brown, Pontllyfni 21 Mawrth 2017

Cyfartaledd ugain o ddyddiadau gweld blodau carn yr ebol ers 1905 hyd eleni yw'r 10ed Mawrth. Gan mai blodau cynta'r flwyddyn sydd debycaf o ysgogi sylwebwyr i'w cofnodi mae'r data yn agos at fod yn adlewyrchu'r "blodeuo cyntaf (a welwyd)". Cafwyd 3 chofnod ym mis Chwefror, yn y blynyddoedd 1936 (20ed), 2016 (27ain) a 2017 (21ain, llun uchod). Y cofnod hwyraf oedd 2 Ebrill 2004.

DB

## Blas ar fywyd ganrif yn ol!

Meddwl fasa chi'n lecio'r cofnod isod gan Mary Davies "Plas". Be oedd hwch yn gwneud mewn melin tybed?

9 Gorffennaf 1914 Cwm Cynllwyd: Glaw bore. Braf at y pawns. Corddi yn y fudde newydd. Andros o helynt. Y cocos yn clecian. Y dynion yn torri gwair gweirglodd beudy bach. Fi yn mynd i danu stodie ar ôl te. Joe yn nol yr hwch o'r felin. Morwyn Cwmffynon (Nancy Tynfedw) yma minos. Nol eirin mair. Joe yn mynd hefo hi adre.

Dyma beth oedd gan Twm Elias i'w ddweud am yr hwch:

Yn amlwg bod yr hen hwch yn llodig (= yn gofyn baedd) ac wedi cael ei hebrwng at faedd y Felin. Wedi bod yno a chael ei gwasanaethu roedd angen ei nol adra. Byddai'r hwch yn gwybod ei ffordd yno ac yn awyddus i fynd – yn mynd yn gyflym: "...fel trot yr hwch at y baedd".

Cogs y fuddai newydd yn swllyd. Mary yn 'taenu ystodau [gwanaf o wair neu yd], ac yna yn nol gwsberins.

**Cyhoeddir Bwletin Llên Natur gan Gymdeithas Edward Llwyd**

(Rhif Elusen: 1126027)

Mae Prosiect Llên Natur ar Facebook a Twitter. Cysylltwch â ni trwy [llennatur@yahoo.co.uk](mailto:llennatur@yahoo.co.uk)


Dyma gwestiwn a ofynnais i'r Dr Howard Williams (awdur y traethawd hir "Adar yng Ngwaith y Cywyddwyr" (Prifysgol Aberystwyth). 'Dwi wedi cymryd yn fy mhen ers tro bod y creyr bach wedi ein cyrraedd yn ddiweddar oherwydd Newid Hinsawdd. Ond dyma sylweddoli bod y rhywogaeth hon yn byw yn Mhrydain yn y Canol Oesoedd ac yn rhan o wleddoedd Uchelwyr Lloegr. Yn wir gwnaeth Thomas Bewick (marw 1828) ysgythriad ohono (isod). Cafodd y creyr bach ei ddifa o'r tir mae'n debyg oherwydd y fasnach blu mewn hetiau merched yn ôl pob son. AC ETO o'r hyn a welaf nid yw Howard yn son unwaith am y creyr bach yng Nghymru yn ei Waith Mawr. Pam mudandod y beirdd Cymraeg am aderyn mor amlwg a phrydferth?

Dyma ateb Howard:

Does dim cyfeiriad at y creyr bach gan y beirdd hyd y gwn i er eu bod yn barod iawn i ddarlunio hyd syrffed wynder yr alarch. Mae hynny'n gyson a'r sylw gan Dr William Turner (1544). Yn y llyfr arloesol hwn mae Turner yn mynd trwy Aristoteles a Pliniws ac, yn lle derbyn yr hyn maen nhw'n ei ddweud fel y gwir digwestiwn fel y rhan fwyaf o ysgolheigion y cyfnod, mae'n troi at ei wybodaeth empirig ei hun. O ran crehyrod mae'n dyfynnu



Eifion Griffiths



THE LITTLE EGRET.

(*Ardea Garzetta*, Linn.—*Héron garzette*, Temm.)

2500 to be fed at each meal. They consumed 4000 pigeons and 4000 crays, 2000 chickens, 204 cranes, 104 peacocks, 100 dozen quails, 400 swans and 400 herons, 113 oxen, six wild bulls, 608 pikes and bream, 12 porpoises and seals, 1000 sheep, 304 calves, 2000 pigs, 1000 capons, 400 plovers, 200 dozen of a bird called 'rees' (i.e. ruffs), 4000 mallard and teals, 204 kids and 204 bitterns, 200 pheasants, 500 partridges, 400 woodcocks, 100 curlews, 1000 egrets, over 500 stags, bucks and roes, 4000 cold and 1500 hot venison pies, 4000 dishes of jelly, 4000 baked tarts, 2000 hot custards with a proportionate quantity of bread, sugared delicacies and cakes, and 300 tuns of ale and 100 tuns of wine. As well as indicating the power of the Nevilles the menu gives a valuable insight into 15th century English avifauna.[7][8]

Ond rwy'n amau gor-ddweud dybryd yn y rhestr hon! Mae gor-wneud rhestrau yn gyffredinol yn nodweddiadol o'r Oesoedd Canol. Ynghylch y cyfnod wedyn dwn i ddim yn gwybod. Efallai i'r creyr bach ddod i Loegr (hwyrach y ran fwyaf deheuol). O ran ysgythriad Bewick (llun ohono ynghlwm), roeddwn i'n meddwl ar y dechrau nad creyr bach oedd yr aderyn am ei fod mor dywyll ond mae'r ysgythriad o'r alarch ganddo yn dywyll hefyd. Ar y llaw arall, does dim son am y creyr bach yn y llyfr (gwyb) gan Keith Thomas (Cymro o Sir Forgannwg): 'Man and the Natural World: Changing Attitudes in England 1500-1800'.


Yn fyr, mae hanes y creyr bach yn dywyll i minnau hefyd. (Ac mae'r cyfeiriad Turner at 'the English [spoonbill]' yn sgwarnog arall.)

## Robin yn ceisio dynwared titw



“Esblygiad?” gofynnodd Wil Williams. Tynnwyd hwn ym mis Mawrth eleni ym Methel, Môn Wil Williams

## Cogau cyntaf - adref ac i ffwrdd



Mae'r echel chwith ('y') yn dangos y nifer o ddyddiau ar ôl y 1af Ebrill. Mae'r pwyntiau glas yn gofnodion ar hap yma thraw ond y cofnodion coch yn dangos y dyddiadau y clywodd Gwyn y gog gyntaf o'i ardd ym Mryn Dafarn, Rhosgadfan, ar ôl symyd yno yn 2010. Mae'n awgrymu cymaint gwell yw cofnodi yn rheolaidd o lle cyfarwydd nac ar hap ymhobman os yw'n bosibl (gweler hanesyn griffit llyffant Jean Mathews o'i gardd yn Llanddona ar dudalen 7).

Llun: Alun Williams, data Gwyn Edwards

## Cerbydau ceffyl



Nodyn a llun gan Peter Edwards awdur llyfr newydd ar gerbydau ceffyl. Meddai Peter:

Dyma lun sy'n cynnwys cyfeiriad we [y llyfr cerbydau](http://www.lulu.com/Pedryn), Mae'n rhaid rhoi enw'r tudalen gwe ar y llinell cyfeiriadau, dydy 'chwilio' ddim yn gweithio. Ar hyn o bryd, dim ond y ffurf e-lyfr sydd ar gael ond rwy'n gobeithio cael y ffurf galed (diwygiedig) yn y 'siop' erbyn Ebrill. Beth ydy'r perthynas gyda Llên Natur? Wel, mae'n gludiant naturiol ac adnewyddadwy, ac mae'r budredd yn ailgylchadwy. Yn ôl at y dyfodol?

Does dim angen esgus i Llên Natur Peter. Mae'r hen gerbydau hyn yn ymddangos ymhobman yn Y Tywyddiadur ac mae'n bwysig deall beth yn union oedd eu defnydd os am ddeall ffordd o fyw yr hen bobl. Dyma enghreifftiau o *phaeton*, *dogcart* a *landau*.

## Cwrel Dinas Dinlle



Casglwyd ar draeth Pontllyfni gan Gill Brown.

Meddai'r daearegydd Math Williams: “Tybiaf mai cwrel yw hwn. Maent yn rhy gyson ac yn rhy gyfan i fod yn *crinoid* [fel y tybiodd y Golygydd cyn cael ei gywiro!]. *Lithostrotion* efallai yw enw'r cwrel”.


Ydi hi wedi cannu ar y cwrel: *coral bleaching yma*

## Tymor y pry gwenyn

Mae'r *pry gwenyn Bombylius major* yn hedfan rwan. *Dyma erthygl* diweddar amdano.

Ystadegau ffenolegol y pryf hwn o'r Twyddiadur: cyfartaledd, 10 Ebrill; nifer o gofnodion 8; ystod, 28 Mawrth - 12 Mai; cyfnod, 1980-2017; tarddiad, Cymru a de Lloegr

## Dyfodiad y gwanwyn hyd 31 Mawrth (Waunfawr)



Beth mae'r graff hwn yn ei ddweud, a **chofiwch y graffiau blaenorol YMA** (tudalen 5).

2007 wedi ei sefydlu erbyn hyn fel y gwanwyn cynharaf o'r gyfres

Diwrnod 78 (18 Mawrth - saeth piws) 2010 yn dechrau colli tir fel y gwanwyn hwyr (cofiwch **heth y flwyddyn honno?**)

Ychwanegwyd gwerthoedd mis Mawrth eleni i'r cyfartaledd.

Mae gwanwyn y llynedd wedi dilyn cyfartaledd 23 mlynedd tan yn ddiweddar.

Mae gwanwyn eleni yn gyflym ennill y frainc o fod y gwanwyn cynharaf o'r gyfres.

## Copyn gwrachen ludw



2 Ebrill gwelais y cyfaill pry cop 'ma yn cerdded yn rhadlon braf ar y carbed [Abergele]. Penderfynais tynnu ei lun. Ond, yn gyntaf, y gamp oedd ei ddal a'i osod ar le, lle y medrwn tynnu ei lun. Nid wyf wedi gweld yr un tebyg iddo o'r blaen. Mae ei faint ryw 13mm o hyd.

Sion Jones

*Dysdera crocata* (Woodlouse spider). It's a specialist feeder on woodlice and has extra-long fangs to pierce their soft undersides. They are capable of biting humans too (painful, but of no consequence).

Richard Gallon

Beth am **lun o wrachen ludw** bobl? - weithiau y pethau mwyaf cyffredin sydd brinaf mewn oriel luniau

**Cofiwch glicio'r geiriau mewn coch i gael mwy o wybodaeth**

## Cigfran powld Cwm Idwal... eto

Tynnwyd y lluniau yn Cwm Idwal ar ddydd Gwener, 24/3/17. Roedd yn amlwg i mi fod y gigfran yma yn dangos ymddygiad a ddysgwyd, gwelais yr aderyn yn hedfan drosodd



i gwpl a oedd newydd eistedd i lawr i gael tamaid i'w fwyta ac yn disgwyl a gobeithio cael sbarion. Tua hanner awr yn ddiweddarach ddaru ni eistedd i lawr i gael tamaid o fwyd ac o fewn ychydig funudau ddaru'r gigfran hedfan i fewn ac aros hefo ni nes i ni orffen ein bwyd. Roedd yn eithaf hyderus i ddod o fewn ychydig o lathenni i gasglu rhai darnau o fwyd ddaru ni rhoi iddo. Faswn i ddim yn synnu os fysar gigfran hon yno pob dydd yn disgwyl am sbarion bwyd. Mwy **yma** Philip Griffith

## Ymddangosiad y chwilen olew



Gwelwyd ardal Berffro ddoe, 28/3/17.

Wil Williams

Dyma ychydig fanylion am y 9 cofnod arall sydd wedi dod i law hyd yma (o Lanbedr, Rhiw, Aberdaron, Caergybi, ac Aberffraw x5): Cyfartaledd 23 Ebrill (1984-2017, n = 9); cynharaf 25 Chwef 2016 Aberffraw.

Mae yna 5 math o chwilen olew ym Mhrydain - mwy ym **Mwletin 90** (brig tud. 2) lle cewch weld y larfáu. Cewch gyfeirio hefyd at y **daflen hon** i geisio adnabod y chwilen uchod. Cofiwch bod yr "iar" yn fwy ac yn drymach na'r "ceiliog".

## CWRS AMGYLCHEDD AC IAITH YN SKYE



A unique Gaelic-medium education course that teaches about the Gaelic heritage associated with nature and the environment will return to Skye this summer.

'Àrainneachd, Cànan is Dualchas' (environment, language and heritage), which won the Innovation in Education Award in the Daily Record Scottish Gaelic Awards in 2016, is hosted in Staffin in the north of Skye by Urras an

**ÀRAINNEACHD, CÀNAN IS DUALCHAS**  
An Taobh Sear, An t-Eilean Sgitheanach  
24 - 28 Iuchar & 31 Iuchar - 4 Lùnastal 2017

Cùrsa mu nàdar is arainneachd na h-Alba tro shùilean, agus tro chànan, nan Gàidheal. Chaidh Duais Inneachdas ann an Foghlam Gàidhlig a bhuileachadh air aig Duaisean Gàidhlig na h-Alba aig an Daily Record ann an 2016.

Taobh Sear, and is presented by journalist, broadcaster and educator Ruairidh (Roddy) Maclean [cyfaill mawr i Lièn Natur]

## Coch y cen....



Tra'n cerdded ardal Llyn Coron, sylwi fel roedd cen ar wal gerrig wedi newid ei liw o lwyd gola i 'goch' yn dilyn teilo'r caea. Sylwi wedyn wrth gerdded ochra Berffro ar faw Dyfrgi ar garreg, hefyd wedi newid ei liw - a meddwl pa broses gemegol oedd yn cymeryd lle.

Nos Sadwrn, ar Gardeners' World, roedd dyn yn siarad am gen. Dywedodd bod tua dwy fil o wahanol gen yn tyfu ym Mrhydain! Mewn mynwent danghosodd fel oedd gwahanol rywogaetha'n tyfu ar wahanol fath o gerrig. Yno roedd un garreg galch ac un arall o dywodfaen, gyda gwahanol gen yn tyfu arnyn nhw - er yn edrych yn debyg iawn. Defnyddiodd 'spot test' i ddangos y gwahaniath rhyngddyn nhw. Un yn troi yn 'goch' a llall ddim. Diddorol te! **Wil Williams**

*I can see the FYM [farm yard manure] splattered on the stones but the orange colouration is not associated with the blobs. I am fairly sure the colour is due to the lichen - probably a Pertusaria sequestering iron from the rock, The iron is not evenly distributed in the rocks and so only parts of the thallus are affected. This effect is very patchy but some walls in mid Wales, particularly of volcanic rock can be quite spectacular in the development of these iron stains. See if there are other walls nearby of the same rock and with the white Pertusaria but without the FYM. I would expect to see the same effect there.* **Ray Woods**

Gallwn fonitro'r cen o hyn allan - y cochni yn aros = natur y graig, y cochni yn diflannu = llygredd tail

## Houidi\* Tregarth



Yn Nhregarth prynhawn ma [5 Ebrill '17]. Wrth yml y tŷ. 200 m! Y tro cyntaf i mi weld hwyiaid acw.

**Dominig Kervegant**

\*hwyiaid yn Llydaweg

## ...a gwiber ddu



Tynnwyd hwn gan fy merch Nia (13) ar ei ffôn wythnos diwetha (diwedd Mawrth 2017). Nid oedd Nia am i ni ddatgelu'r lleoliad ond roedd 195m o uchder yng ngogledd Eryri, ar lan llyn enwog. Roedd pâr ohonynt yn

torheulo ar b'nawn godidog, anarferol gynnes pan daeth y genod a'r ci ar eu traws, ond diflannodd un cyn y gallai Nia tynnu ei lun. Credwn mae Gwiberod Du oeddyn nhw, eitha prin yn ôl yr holl wybodus Google.

**Neil Davies (via Galwad Cynnar BBC)**

*Melanistic adders - several ideas around them being better thermoregulators in cooler climates- whether altitude or latitude due to thermal properties of black bodies. This has to be balanced though against losing the advantage that the normal cryptic colouration gives for camouflage and predator avoidance. Looks like the jury is out on the evidence I can find - but the story is still there! They are quite commonly found. It also appears that they are born 'normal' and develop the black colouring with age.*

**Liz Howe (CNC)**

Yn ôl Gethin Thomas mae rhain y niferus iawn ym Mro Gwyr. Mwy yma.

## Croen gwiber?




Yr oedd Noel Jones wedi cael y croen neidr yn yr ardd "adeg hel mwyar duon" yn 2015 yn ardal Sarn Mellteyrn. Wedi trio tynn llun y croen neidr ond tydy nhw ddim yn rai da, doeddwn i ddim yn lecio ei dynnu allan o'r plastic, rhag ond iddo dorri, roedd yn mesur 29 mod/74cm. Gwiber oedd hi.

**Noel Jones >> Bethan Wynn Jones**

Meddai'r arbenigwraig Liz Howe (CNC) "It certainly looks like grass snake - large scales around eye and on top of head fit that, whereas adder would have many small scales in those positions... see the end of this [very useful chart](#) from ARC - pattern persists and note that grass snake scales are ridged and this leaves an impression on the slough"

## Ffynnon Lloer a'i fwsoglau



### Lluniau llyfrgell CNC

O bell ac agos: Ffynnon Lloer yn y Carneddau yw llyn cyfoethocaf Cymru o ran mwsoglau, diolch gyfeiriad i'r de ddwyrain ac nad yw erioed wedi cael ei ddreinio na'i argeuo. Mae'r bryolegydd i CNC Sam Bosanquet yn meddwl y byd o'r llecyn ac wedi cyhoeddi am ei fwsoglau. Mae'r llun agos uchod yn dangos *Bryum muehlenbeckii*. Mae Sam eisiau gwybod pa lèn gwerin sydd ynghlwm wrth enw Ffynnon Lloer ar gyfer ffilm mae Plantlink yn ei baratoi am y safle. Fedrwch chi helpu?

Meddai Sam: "The other top bryophyte lakes are Ffynnon Llyffant (*Bryum muehlenbeckii*), Llyn Cwmffynnon (*Grimmia anomala* and *Odontoschisma elongatum* at their only recorded sites south of Scotland) and Llyn Gafr (*Hedwigia striata* shared with Ffynnon Lloer)".

## Berwyn a'i grifft

Twmpath o grifft llyffant dydd Sadwrn diwethaf [24 Mawrth 2017] rhwng Cadair Berwyn a Moel Sych, 2,700 troedfedd uwchlaw lefel y môr. Roedd chwaneg heb fod yn dwmpath [ac felly yn hŷn?] yn is i lawr

Dei Tomos



Waunfawr 2008

Yn cynnwys cofnod Dei mae 4 cofnod grifft llyffant uwchlaw 300m yn y Tywyddiadur o ogledd Cymru. Mae pob un ym mis Mawrth, a dyddiad chyfartalog y pedwar yw 13 Mawrth. Y cynharaf oedd 1 Mawrth yn 2010, sydd yn rhyfeddol gan mai dyna'r gwanwyn hwyraf ers 1995 hyd ddiwedd Chwefror, gweler Bwletin 110. Mae hyn yn awgrymu efallai na chafodd y grifft mynydd ei weld yn ddigon buan - llai o bobl yn mynydda ym mis Chwefror na mis Mawrth efallai. Mae hyn yn dangos y pwysigrwydd o nodi cyflwr twmpathog y grifft (hy. ydi'r grifft yn brigo'r wyneb ai peidio fel yn ochr chwith yn y llun).

I gymharu dyddiadau tir isel dewisiwyd cyfres o XX o gofnodion o ardd Jean Matthews yn Llanddona, Môn (148m. ulm) rhwng 1993 a 2004. Y dyddiad cyfartalog yn yr achos yna oedd 9 Chwefror (cynharaf 31 Ion, hwyraf 2 Mawrth). 31 diwrnod o wahaniaeth.

OND ydi hyn yn gymhariaeth teg? Mae'r cofnodion mynydd yn dibynnu ar siawns a'r grifft efallai yn ddigon hen. Yn achos gardd Jean, naturiaethwraig gatref yn ei gardd ei hun, mae yna ddipyn gwell siawns bod ei dyddiadau 'cyntaf' yn o agos at y dyddiad dodwy.

Profi dim, ond yn gryf awgrymog bod llyffantod yn dodwy yn hwyrach uwchlaw 1000tr, ond mae'n debyg fymryn yn llai na'r 13 o wahaniaeth a welir yn fan hyn.



Panorama o Gerrigydrudion Mawrth 2017

Dyma rai o'r mynyddoedd a welwch yn y llun o'r chwith i'r dde : Yr Aran, Lliwedd, Yr Wyddfa, Crib y Ddisgl, Siabod, Y Glyderau, Tryfan, Y Garn, Pen yr Oleu Wen, Carnedd Dafydd a Carnedd Llewelyn. Tynnais y llun ar ddydd Sadwrn, Mawrth 25 ar daith Cymdeithas Edward Llwyd gan gerdded o Gronfa Ddwr Llyn Alwen, heibio Caer Ddunod ac yna i gyfeiriad Cerrigydrudion, lle tynnais y panorama.

Alun Williams




# Llygad y Dydd

CYMDEITHAS  
GWAITH MAES  
arwain addysg yr amgylchedd yng Nghymru

O nentydd mynyddig i orlifdiroedd isel mae afonydd wedi bod yn newid siâp tirwedd Cymru ers diwedd oes yr Ia. Fedrwch chi enwi'r tirffurfiau sydd i'w gweld mewn rhannau gwahanol o gwrs afon? Defnyddiwch y termau isod i labelu'r system afon.

Atebion i gyrraedd [golygyddol@gwaithmaes.org](mailto:golygyddol@gwaithmaes.org) erbyn y 15.5.17. Mae gwobr o £10 i'r enillydd.



Gorlifdir  
Erydiad  
Ceunant  
Ystumllyn

Tarddiad  
Traeth afon  
Ystum afon  
Llifglawdd

Aber  
Llednant  
Rhaeadr  
Dyddodiad